

# Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd  
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern  
Nos Lun, 27 Chwefror 2017 am 7 yr hwyr.

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau.

### Presennol:

Mr. Adrian Jones (cadeirydd) **AJ**, Miss Jane Ann Roberts (Is-Gadeirydd) **JAR**, Cynghorwr Ken Hughes, **KH**, Mr Aled Ifan **AI**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr. Edward Jones **EJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr O G Roberts **OGR**, Mrs Eluned Ann Burgess Thomas **EABT**, Ms Rhian Wyn Owen **clerc**.

## 2. Trafodaeth gyda Mr Huw Aled, Pennaeth Pwyllgor Technegol yr Eisteddfod.

Mynychodd Huw Aled y cyfarfod gyda cyflwyniad ynglyn a'r Eisteddfod Genedlaethol yn manylu y cynlluniau, lleoliad y maes, mae carafannau ayyb a threfniadau cludiant. Nodwyd bod disgwyl i'r gwaith ddechrau ym mis Mehefin, gyda'r safle yn cael ei adael erbyn y 22 o Fedi. Nodwyd hefyd bod trefniadau yn eu lle ar gyfer gofal meddygol ar y safle, felly ni fydd unrhyw bwysau ychwanegol ar y feddygfa leol. Nodwyd hefyd fod unrhyw waith a wneir ar y waliau sydd yn creu pryder yn waith dros dro yn unig, a bydd y waliau yn cael eu dychwelyd at eu cyflwr presennol. Bydd sesiwn galw i mewn yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos i ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd i weld y cynlluniau a gwneud unrhyw ymholiadau. Cytunwyd i'r clerc i ddsbarthu copi o'r cyflwyniad i bob aelod. Diolchodd y cadeirydd I Huw Aled am ei amser ac am y wybodaeth werthfawr.

## 3. Datgan Diddordeb.

KH, EJ a LJ ynglyn ac Eitem 6.

## 4. Cofnodion Ionawr 2017 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Cynigwyd fod y cofnodion yn gywir gan AJ, gyda EABT yn eilio.

4.1 Nodwyd fod maintion y potiau blodau wedi eu derbyn, ac bod angen cadarnhau eu lleoliadau.

Cytunwyd i'r clerc gysylltu a MON CF a derbyn eu cynnig i gwrdd a chael cyngor ynglyn a lle sy'n addas.

4.2 Nodwyd fod CSYM wedi cynghori bod angen i unrhyw arwyddion i fod oleiaf 2m o ochr y ffordd, ac mae hyn yn gostwng yn sylweddol y dewisiadau sydd ar gael o arwyddion a lleoliadau sy'n addas. Y clerc i ofyn am eglurhad pellach a thrafod gyda Llywodraeth Cymru a dod â chynigion pendant i'r cyfarfod nesaf.

# *Cyngor Cymuned Bodedern*



## **5. Maes Chwarae / Ffrindiau Bodedern**

Darllenwyd lythur gan “Groundworks North Wales” yn gofyn caniatad i gynnal sesiynnau chwarae yn y maes chwarae. Cadarnhawyd fod hyn yn dderbynniol, ac cafwyd dystiolaeth o bolisi ysiwriant Ground works.

## **6. Materion Cynllunio.**

### **6.1 Cais 13C102C newid defnydd adeilad allanol Tre Gwehelydd, Bodedern.**

Dim gwrthwynebiad.

### **6.2 Cais 13C92C newid cynllyn a gafodd ei gymeradwyo yn flaenorol Tre Rhys, Bodedern**

Dim gwrthwynebiad.

### **6.3 Cais 13C132D codi sied amaethyddol Bryn Goleu, Bryngwran**

Dim gwrthwynebiad.

### **6.4 Cais 13C194 codi tri annedd fforddiady yn cynnwys manylion mynedfa gyferbyn a Llwyn Llinos**

Dim gwrthwynebiad.

### **6.5 Cais 13C195 pennu os oes angen caniatad blaenorol ar gyfer gosod traciau amaethyddol yn Gate Farm, Trefor**

Dim gwrthwynebiad.

## **7. Gohebiaeth.**

7.1 Llythur gan Canolfan C.Ff.I. Ynys Mon yn gofyn am arian tuag at ceisio brynu llawr gwaelod eu hadeilad. Cytunwyd i ohurio'r cais.

## **8. Eisteddfod 2017**

Darllenwyd lythur gan Pwyllgor Apel Bodedern yn nodi eu bod yn bwriadu sefydlu Grwp Croesawu'r Eisteddfod genedlaethol i'r Pentref" ac yn rhoi gwahoddiad i'r aelodau i'r cyfarfod ar y 7 Mawrth yn yr Ysgol Gynradd.

# Cyngor Cymuned Bodedern



## 9. Taliadau i'w gwneud.

Cytunwyd i wneud y taliadau canlynol:

Un Llais Cymru	£141.00	Siec 200002
Swyddfa Archwilio Cymru	£402.30	Siec 200001

## 10. Unrhyw fater arall.

10.1 Nododd KH fod cyfarfod treth CSYM i'w gynnal y diwrnod canlynol, ac byddai'n debyg mai 2.5% byddai'r codiad, sef y codiad isaf yng Nghymru.

10.2 Roedd VO wedi cael cynnig gan glerc Caergeiliog i drin safle bws Caergeiliog a Bodedern ar yr un adeg i geisio cael gostwng yn y pris. Y clerc i gysylltu a cael dyfnbris.

10.3 Nododd AJ fod problem gyda'r draeniau ym Maes Edeyrn oherwydd y glaw trwm, ac roedd yn digwydd ar bob achlysur o dywydd gwael. Cytunodd KH i hysbysbu CSYM o'r broblem.

10.4 Nodwyd fod cwyn wedi ei dderbyn ynglyn a baw ci yn y pentref, ac yn arbennig yn ardal y tai pensiynwyr. Y clerc i wneud ymholiadau gyda CSYM ynglyn a pwy sy'n gallu cyflewni biniau arbennig a threfnu i'w gwagio, ac pwy fyddai'n gyfrifol am hyn.

10.5 Nododd EABT fod gwaith yn parhau ar lon "Tai Uchaf" ac fod pryder ynglyn a chyflwr y lon a'r waliau gyferbyn. Y clerc i gysylltu a'r adran briffyrdd i ymholi os oes amcangyfrif pa bryd fydd y gwaith wedi dod i ben ac i fynegi pryderon y cyngor cymuned eto.

## 11. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Nodwyd fod y cyfarfod nesaf i'w gynnal 27 Mawrth 2017

Diwedd 8.10 o'r gloch.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_